Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Bro Alun

**Delamere Avenue**
**Gwersyllt**
**Wrecsam**
**LL11 4NG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn ag Ysgol Bro Alun

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bro Alun |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 276 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 198 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 43 |
| | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector Cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%) | 11.2% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a) (Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector Cynradd yw 22.2%) | 12.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 34.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ionawr 2013 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill Ysgol Bro Alun yn llwyddo i wireddu eu gweledigaeth i ddarparu amgylchedd gofalgar, cefnogol, hapus a diogel i ddisgyblion. Mae hyn yn ei dro yn caniatáu i’r rhan fwyaf o ddisgyblion ddatblygu hunanhyder a hunanddisgyblaeth. Cânt eu cefnogi'n effeithiol gan athrawon ymroddedig a staff cymorth sy'n cynorthwyo disgyblion i ddatblygu ystod o fedrau'n briodol mewn amgylchedd Cymreig balch. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae Ysgol Bro Alun yn ysgol hapus lle mae bron bob un disgybl yn ymdrin â’i gilydd, staff ac ymwelwyr gyda chwrteisi a pharch. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, ar y cyfan, ac yn barod i ymgymryd â’u gwaith dosbarth gyda brwdfrydedd. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion y disgyblion a thrwy gynllunio ar y cyd, maent yn paratoi gweithgareddau ysgogol a diddorol sy’n ennyn diddordeb y disgyblion. Er hynny, nid yw lefel yr her bob amser yn briodol i’r disgyblion, yn enwedig ym mlynyddoedd uwch yr ysgol.

Yn y blynyddoedd cynnar, mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, mathemateg a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Maent yn sgwrsio’n  hyderus â’u hathrawon am eu gwaith ac yn mwynhau cymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy’n cael eu darparu iddynt yn yr ardaloedd tu allan. Wrth symud drwy’r ysgol, mae disgyblion yn parhau i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau; er hynny, nid ydynt yn gwneud y cynnydd gorau posibl yn eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae Ysgol Bro Alun wedi ei ffedereiddio gydag Ysgol Plas Coch, ysgol gynradd leol arall. Maent yn rhannu'r un corff llywodraethol, a'r un pennaeth, sy'n rhannu ei amser rhwng y ddau safle. Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei ddyletswyddau'n ddiwyd, er enghraifft drwy gynnal ymweliadau safle, ac mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Fel ffederasiwn, mae arweinwyr yn manteisio ar ychydig o gyfleoedd i gydweithio, er enghraifft pan fydd uwch arweinwyr yn gwerthuso gwersi a safonau mewn llyfrau ar draws y ddau safle.  Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro’n  ystyried canfyddiadau eu gweithgareddau monitro mewn modd  digon miniog a thrylwyr wrth gynllunio ar gyfer gwelliant. Y tu hwnt i'r lefel uwch arweinwyr, nid yw'r trefniant ffedereiddio yn effeithio llawer ar y ffordd y caiff yr ysgol ei rhedeg o ddydd i ddydd.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion, yn enwedig ar frig yr ysgol

A2 Sicrhau lefel briodol o her i ddisgyblion, yn enwedig ar frig yr ysgol

A3 Cryfhau prosesau cynllunio strategegol i flaenoriaethu'r camau pwysicaf ar gyfer gwella deilliannau disgyblion

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau Cymraeg y rhan fwyaf o ddisgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn, ar y cyfan. Er hynny, nid yw llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar syniadau ei gilydd ac wrth ddilyn cyfarwyddiadau oedolion. Ym mlynyddoedd cynnar yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg wrth rannu eu syniadau â'u hathrawon. Yn y dosbarth meithrin, maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau oedolion trwy ddefnyddio ystod o eirfa bwrpasol i gyfleu eu syniadau. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn hapus i siarad am eu gwaith a'u profiadau, er enghraifft wrth drafod gwahanol fathau o drychfilod maent wedi eu hadnabod yn yr ardal leol. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio Cymraeg a Saesneg safonol a chywir wrth ofyn ac ateb cwestiynau a thrafod eu gwaith â'u hathrawon. Maent yn barod i rannu eu syniadau a sgwrsio yn Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol, lle mae oedolion yn bresennol. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar Cymraeg lleiafrif y disgyblion yn unol â'u hoed a'u gallu o'u mannau cychwyn. Mae llawer yn rhy barod i droi at y Saesneg mewn gwersi ac ar adegau anffurfiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod seiniau a llythrennau yn gywir ac yn dechrau adnabod geiriau'n hyderus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn ystyrlon gyda thôn a mynegiant ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn hyderus. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith. Ym Mlwyddyn 4, mae'r disgyblion yn ymarfer eu uwch fedrau darllen yn gyson ac yn eu defnyddio'n aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Enghraifft dda o hyn yw gwaith y disgyblion wrth ddysgu am daith y Cymry ar y Mimosa i'r Wladfa.

Yn mlynyddoedd cynnar yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn. Yn y dosbarth meithrin, maent yn mwynhau defnyddio ystod o offer ysgrifennu i arbrofi â gwneud marciau cynnar. Erbyn diwedd y dosbarth derbyn, mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn ysgrifennu ystod o eirfa o fewn cyd destun, er enghraifft wrth ddisgrifio llun o dref brysur fel rhan o'u thema dymhorol. Ym mlynyddoedd 1 a 2, mae llawer o ddisgyblion yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol, er enghraifft wrth ysgrifennu cyfres o gyfarwyddiadau ar sut i fyw ar orsaf ofod ryngwladol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae eu medrau ysgrifennu yn datblygu'n gynyddol dda. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu cyfres o frawddegau eglur sydd yn datblygu eu syniadau'n glir, er enghraifft drwy gofnod dyddiadur plentyn ysgol Capel Celyn ar ei ddiwrnod olaf yn yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol gywir mewn ystod o wahanol ffurfiau, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd yn disgrifio'r cyffro bod clwb pêl-droed Wrecsam wedi cael ei brynu gan sêr Hollywood. Er hynny, nid yw'r rhan fwyaf o ddisgyblion ar

frig yr ysgol yn datblygu eu medrau llythrennedd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn datrys problemau syml mewn sefyllfa ymarferol a rhyngweithiol sy’n cynnwys deall trefnolion, cyfrif fesul 2, 5 a 10 ac adio rhifau un digid. Maent yn cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 10, o leiaf. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yr amser ar gloc analog yn gywir, gan ymateb i broblemau go iawn yn ymwneud ag amser. Maent yn defnyddio unedau cywir, er enghraifft wrth fesur hyd gwrthrychau gwahanol a chyfrifo cynhwysedd cwpanau. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae llawer yn adeiladu’n briodol ar eu dysgu blaenorol o ran eu dealltwriaeth fathemategol. Ar frig yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn cyflawni gwaith mathemateg ar lefel briodol. Er hyn, nid yw disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg yn ddigon cyson ar draws agweddau ehangach y cwricwlwm, ac nid yw’r gweithgareddau bob tro’n eu herio i gyflawni cystal ag y gallent.

Mae medrau TGCh llawer o disgyblion yn datblygu’n dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth reoli teclyn rhaglenadwy fel rhan o’u gwaith rhifedd neu wrth greu graffiau i ddangos pwy sy’n byw yn eu cartrefi. Wrth symud trwy'r ysgol, mae medrau’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu’n gadarn ar y sylfaen hon. Maent yn defnyddio offer digidol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddenyddio rhaglen codio i greu taith i Barc Gwledig Dyfroedd Alun neu wrth recordio sgript i weddill yr ysgol yn esbonio’r datblygiadau yn yr ysgol goedwig.

Ar adegau, mae disgyblion yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau creadigol, er enghraifft wrth ddefnyddio ystod eang o ddeunyddiau naturiol i efelychu gwaith artist gwadd. Maent yn dysgu ystod eang o ganeuon a hwiangerddi, sy’n datblygu eu medrau llafar yn briodol.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae Ysgol Bro Alun yn gymuned gyfeillgar a chartrefol. Mae disgyblion yn cyfarch ei gilydd, y staff ac ymwelwyr i'r ysgol yn gwrtais a pharchus. Maent yn groesawgar ac yn fodlon iawn trafod agweddau ar fywyd yr ysgol gydag oedolion. Mae disgyblion yn falch o'u hysgol ac mae llawer ohonynt yn mwynhau eu hamser yno. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg.

Yn gyffredinol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda wrth weithio yn eu dosbarthiadau ac yn cyd-chwarae’n hapus yn ystod amser egwyl a chinio. Maent yn deall yn dda beth yw diben rheolau yn y dosbarth a systemau gwobrwyo’r ysgol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymroi’n frwdfrydig i ymgymryd â heriau sy’n eu hannog i weithio’n annibynnol ac, ar y cyfan, maent yn dyfalbarhau i gwblhau’r gwaith. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith, cyfraniadau eu cyd-ddisgyblion a’r wybodaeth a gyflwynir gan eu hathrawon. Yn gyffredinol, maent yn ymateb yn briodol i adborth llafar eu hathrawon. Mewn ychydig o achosion, mae disgyblion yn dewis cwblhau tasgau sylfaenol neu maent yn or-ddibynnol ar gymorth oedolion i ddatrys problem gan olygu nad ydynt yn herio eu hunain cystal ag y gallent.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran bwyd a diod. Er enghraifft, mae disgyblion iau'r ysgol yn mwynhau dysgu am ffrwythau a llysiau er mwyn creu diodydd iachus. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn frwd wrth gwblhau heriau ‘hwyl a heini’ yn y dosbarth, er enghraifft dawnsio, cymryd rhan mewn gemau buarth, ac ioga.

Yn dilyn cyfnod y pandemig, mae disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd diweddar i fynychu gweithgareddau a chlybiau sy’n hybu eu hiechyd a lles. Er enghraifft, mae disgyblion yn mwynhau’r cyfleoedd i fynychu clwb coginio a chlwb lles lle buont yn plannu tatws. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth briodol o bwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel ar lein.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu’n dda fel dinasyddion moesegol a gwybodus. Mae disgyblion iau'r ysgol yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o beth yw bod yn ffrind da a thrin eraill gyda pharch. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarth derbyn yn ystyried beth yw nodweddion ffrind da wrth wrando ar stori "Siwgr" y pwped piws. Yn ogystal, mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth briodol o beth yw dinesydd da a gwybodaeth sylfaenol am hawliau plant. Er enghraifft, mae disgyblion iau'r ysgol yn ysgrifennu e-bost at barc gwledig lleol yn rhoi awgrymiadau am sut gellir gweithredu rheolau cerdded cŵn. Mae'r disgyblion hynny sy’n aelodau o bwyllgorau neu gynghorau yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft wrth gyfrannu at waith y grŵp lleisiau llesiant a’r dewiniaid digidol.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan athrawon a staff berthynas waith gref gyda disgyblion ledled yr ysgol ac yn eu trin â pharch, sy'n helpu disgyblion i fagu hyder ac arddangos agweddau iach tuag at ddysgu. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn adnabod cryfderau, diddordebau a’r meysydd y mae angen i’r disgyblion eu gwella, gan ddefnyddio'r wybodaeth i annog a chefnogi dysgu disgyblion yn werthfawr.

Mae gan athrawon adnabyddiaeth dda o un o brif flaenoriaethau’r ysgol, sef gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion. Darpara athrawon weithgareddau pwrpasol sy’n magu medrau ehangach disgyblion yn y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd buddiol iddynt fagu medrau cyfathrebu, fel creu podlediadau yn y Gymraeg am eu hysgol. Mae’r athrawon a’r staff cymorth yn fodelau iaith da, ac yn annog y disgyblion i ymateb yn Gymraeg yn gyson. Mae hyn yn parhau i gryfhau medrau llafar Cymraeg disgyblion yn briodol, er bod lle eto i wella defnydd y disgyblion o’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol, fel ar y buarth ac wrth iddynt siarad â’i gilydd mewn gwersi.

Mae gan wersi amcanion clir ac, at ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio ystod o ddulliau, gweithgareddau ac adnoddau i ennyn diddordeb y disgyblion yn briodol. Ar frig yr ysgol, nid yw’r profiadau dysgu bob tro’n herio’r ystod lawn o ddisgyblion er mwyn eu cefnogi i wneud y cynnydd gorau posibl.

Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i ddisgyblion wrth iddynt weithio. Gan amlaf, mae’r athrawon a’r staff cymorth yn defnyddio technegau amrywiol holi i ymestyn a datblygu ymatebion disgyblion ymhellach, a chael amcan o’u dealltwriaeth. Yn llyfrau gwaith y disgyblion, mae athrawon hefyd yn rhoi adborth ar gywirdeb eu gwaith, ac ambell dro ar ansawdd y cynnwys, ond nid yw bob amser yn helpu disgyblion i ddeall sut i wella. O bryd i'w gilydd, mae athrawon yn strwythuro gwersi ac yn arwain y dysgu'n ormodol ac mae hyn yn llesteirio creadigrwydd ac annibyniaeth disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog y disgyblion i gyfrannu syniadau a dylanwadu ar ddysgu. Er enghraifft, mae cyfleodd da ar draws yr ysgol i ddisgyblion gyfrannu syniadau drwy sesiynau ‘sbarduno’r syniadau’. Mae’r rhain yn rhoi dealltwriaeth well i ddisgyblion o’r maes dan sylw, sy’n arwain at greu cwestiynau ymholi a gwaith ymchwilio diddorol. Mae rhoi profiadau bywyd go iawn i ddisgyblion fel y rhain yn enghraifft dda o sut mae athrawon yn llunio eu cynllunio ac ystyried y pedwar diben a'r meysydd dysgu a phrofiad wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm newydd i Gymru.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio'n feddylgar i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer y medrau y maent wedi'u dysgu mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, sy'n aml yn gysylltiedig â'u pynciau. Er hyn, nid yw’r cynllunio ar frig yr ysgol bob amser yn sicrhau bod dysgu’r disgyblion yn adeiladu’n gydlynol ar eu gwybodaeth blaenorol er mwyn sicrhau dilyniant wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae ystod dda o weithgareddau mathemategol ac iaith yn cael eu darparu i ddisgyblion; er hynny, nid oes digon o gyfleoedd iddynt gymhwyso eu medrau rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol ardal allanol ddeniadol, sy’n cynnig awyrgylch ysbrydol i ddisgyblion ddysgu. Er hyn, mewn ambell ddosbarth, cyfyng yw’r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu yn yr awyr agored.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae staff yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob disgybl ac oedolyn yn llwyddiannus drwy drawstoriad o weithgareddau pwrpasol. Er enghraifft, drwy gynnal sesiynau trafod, a chreu arddangosfeydd ar agweddau megis datblygu parch a gofal, a meithrin cyfrifoldeb, mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i fynegi barn, a dangos empathi.

Mae ystafell bwrpasol ar gael ar gyfer grwpiau o ddisgyblion bregus, lle datblygir medrau i gryfhau eu hunanddelwedd a’u hunanhyder. Mae’r staff yn rhoi cyfleoedd cyson dda ar gyfer paratoi’r  disgyblion i drafod eu hemosiynau yn agored. Er enghraifft, drwy weithgaredd gyffrous, ble mae disgyblion yn rhoi llaw ar foncyff sy’n newid lliw i’w hysgogi i drafod eu pryderon. Maent yn werthfawrogol o`r sgyrsiau a’r gynhaliaeth gefnogol hon.

Mae Lleisiau Lles, sef Clwb Lles yr ysgol, yn gweithredu’n effeithiol, ac mae’r aelodau’n  rhoi arweiniad llwyddiannus i weddill y disgyblion ar sut i gadw’r corff a’r meddwl yn iach. Mae’r ysgol yn dathlu wythnos iechyd meddwl yn flynyddol a rhoddir cyfleoedd derbyniol i ddisgyblion feddwl yn greadigol am ddulliau hunangymorth. Er enghraifft, maent yn gwneud rhestr o nodweddion beth sydd ei angen i fod yn ffrind

da ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cymdeithasol disgyblion a’u perthnasoedd â’i gilydd.

Mae’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn magu perthynas broffesiynol gyda rhieni. Mae gan yr ysgol ystod o ddarpariaeth gynhwysfawr sy’n cael ei defnyddio’n effeithiol wrth gynllunio cefnogaeth er mwyn sicrhau trefn, tegwch a chysondeb i’r disgybl. Mae’r targedau yn y cynlluniau addysg unigol yn berthnasol i anghenion lles a dysgu’r disgyblion. Yn ddiweddar, mae’r CADY yn gosod targedau sy’n cefnogi’r disgybl i wneud cynnydd yn y medrau. Mae cynnydd y disgyblion yn cael ei fonitro a’i olrhain yn llwyddiannus.

Yn ddiweddar, mae disgyblion yn cymryd rhan yn briodol mewn penderfyniadau sy’n dylanwadu ar yr hyn y maent yn ei ddysgu drwy ddull ymchwilgar, 'dysgu ar sail ymchwiliad', sy`n rhoi lle amlwg i lais y disgybl. Ailsefydlwyd y cyngor ysgol wedi’r pandemig ac, ar y cyfan, mae’n cynnig cyfleoedd priodol i’r disgyblion fynegi barn.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae’r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â Pharc Gwledig Dyfroedd Alun yn gyson er mwyn ehangu ar eu darpariaeth addysg awyr agored. Er enghraifft, mae’r athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion graffu ar gylch bywyd y broga a sbardunodd waith dilynol yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn trefnu ymweliadau cyson i’r gymuned leol, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn gorymdaith Dydd Gŵyl Ddewi. Yn ogystal, mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd ar gyfer croesawu ymwelwyr i’r ysgol i gyfoethogi’r cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon yn trefnu i theatr mewn addysg ymweld â’r ysgol i gyflwyno hanes mordaith y Mimosa. Trwy hyn, mae’r profiadau hyn yn dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a’u diwylliant yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu gweithgareddau pwrpasol ac ysgogol sy’n dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o faterion byd eang. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn dysgu am effaith sychder ar wledydd tramor megis Simbabwe ac yn codi arian i prosiect i sicrhau bod dŵr glân ar gael i bobl dlawd y byd. Wrth ymgymryd â’r gweithgareddau hyn, mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu am bobl sydd yn llai ffodus na nhw ac i fod yn ddiolchgar am yr hyn sydd ganddynt. Caiff agweddau ysbrydol a moesol y disgyblion eu hyrwyddo’n effeithiol drwy gwasanaethau addoli ar y cyd a sesiynau myfyrio o fewn y dosbarthiadau.

Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae staff yn goruchwylio'r disgyblion yn briodol yn ystod amseroedd hamdden. Mae gan y staff ymwybyddiaeth gadarn o brosesau diogelu ac mae arweinwyr yn ymateb yn briodol i achosion unigol, gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol, lle bo’n briodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas i gefnogi disgyblion sydd ag anghenion emosiynol, er enghraifft trwy ddarparu sesiynau ar eu cyfer i drafod eu teimladau a chyfleoedd iddynt  ymdawelu wrth ddychwelyd i'w gwersi.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth effeithiol yn seiliedig ar weledigaeth yr ysgol i hybu hunanhyder a hunanddisgyblaeth disgyblion. Ynghyd â'i ddirprwy, mae'n creu ac yn cynnal tîm effeithiol, sydd yn ei dro yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud

cynnydd cadarn mewn amgylchedd diogel a gofalgar. Maent yn hyrwyddo ac yn ymgorffori gwerthoedd proffesiynol sy'n gosod esiampl gref i ddisgyblion. Fe'u cynorthwyir gan lywodraethwyr sy'n gweithredu fel cyfeillion beirniadol gwerthfawr, gan ddarparu cymorth a her addas i'r ysgol.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol i werthuso perfformiad yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys casglu amrywiaeth o dystiolaeth uniongyrchol am sawl agwedd o'i gwaith, gan gynnwys addysgu a dysgu. Mae arweinwyr yn darparu adborth gwerthfawr i'r athrawon yn dilyn arsylwadau gwersi rheolaidd ac ymarferion craffu ar lyfrau. Maent yn derbyn targedau unigol defnyddiol o ganlyniad i brosesau rheoli perfformiad trylwyr. Mae gan lywodraethwyr ran sefydledig mewn gweithdrefnau hunanwerthuso, fel cynnal teithiau dysgu neu wrando ar gyflwyniadau, sy'n eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth o flaenoriaethau datblygu'r ysgol. Er enghraifft, mae llywodraethwyr yn elwa o fewnbwn gan aelodau'r cyngor ysgol i ymestyn eu dealltwriaeth o sut maent wedi datblygu eu medrau digidol. Mae arweinwyr yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau cenedlaethol, fel paratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a chadw dysgwyr yn ddiogel. Mae arweinwyr canol yn dylanwadu'n gynyddol ar ddysgu ac addysgu yn eu hadrannau. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw arweinwyr ar bob lefel yn canolbwyntio digon ar brif ganfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso wrth gynllunio ar gyfer gwella. O ganlyniad, mewn ychydig o feysydd pwysig, nid yw'r cynnydd mor gyflym ag y gallai fod.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau yn briodol. Maent yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud defnydd addas o'r gyllideb, gan gynnwys unrhyw grantiau ychwanegol. Er enghraifft, maent yn cyflogi staff i gefnogi disgyblion i adfer eu hyder a'u gallu i siarad yn y Gymraeg ar ôl cyfnodau clo COVID-19. Maent hefyd yn buddsoddi mewn hyfforddiant i staff mewn meysydd yn ymwneud â chefnogi lles dysgwyr. Mae arweinwyr yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu broffesiynol defnyddiol i athrawon a staff cefnogi sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Maent yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion eraill. Er enghraifft, maent yn trafod adnoddau a gweithgareddau o fewn eu rhwydwaith clwstwr TGCh, ac yn rhannu enghreifftiau o dempledi cynllunio yn rhanbarthol. Mae arweinwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda rhieni, er enghraifft trwy ddefnyddio ap digidol i rannu gwybodaeth.

Mae arweinwyr yn hybu bwyta ac yfed yn iach yn briodol. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion iau baratoi a blasu gwahanol lysiau yn y dosbarth, gan sgorio eu hoff liw o bupur, ac yn darparu sesiynau coginio i ddisgyblion hŷn.

Mae'r pennaeth yn treulio tua hanner ei amser bob wythnos ar safle Ysgol Bro Alun, a'r hanner arall ar safle Ysgol Plas Coch, gyda'r dirprwyon yn gyfrifol am y safleoedd yn ei absenoldeb. Mae arweinwyr yn manteisio ar gyfleoedd achlysurol i'r staff a'r disgyblion gydweithio fel rhan o'r cytundeb ffedereiddio. Er enghraifft, mae staff yn mynychu digwyddiadau hyfforddi ar y cyd, ac mae disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd i gydweithio cyn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2022